Welsh Parliament
**Senedd Cymru**

# Dirprwyaeth Traws-Bwyllgor i Stuttgart

24-26 Chwefror 2025

Dros doriad mis Chwefror, arweiniodd y Dirprwy Lywydd ddirprwyaeth draws-Bwyllgor o’r Senedd i Stuttgart ar ymweliad swyddogol â Landtag (Senedd Talaith) Baden-Württemberg. Cyfarfu’r ddirprwyaeth, a oedd yn cynnwys Llyr Gruffydd AS, Hannah Blythyn AS a Carolyn Thomas AS, ag aelodau o Bwyllgor yr Amgylchedd, Hinsawdd a Diwydiant Ynni, y Pwyllgor Materion Economaidd, Llafur a Thwristiaeth, a’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd a Rhyngwladol.





Dirprwyaeth y Senedd mewn Siambr y Landtag (Ch-Dd; Emil Sänze MdL, Llyr Gruffydd AS, Niklas Nüssle MdL, David Rees AS (Dirprwy Lywydd), Florian Wahl MdL, Hannah Blythyn AS, Carolyn Thomas AS, Dr. Reinhard Löffler MdL)



Dirprwyaeth y Senedd yn edrych ar Lyfr Coffa Senedd y Wladwriaeth. Mae'r llyfr coffa yn coffáu aelodau seneddol a gafodd eu herlid am eu gweithredu gwleidyddol rhwng 1933 a 1945.

Gwnaethant drafod trefn busnes y Landtag (gan gynnwys trefniadau pwyllgorau a phleidleisio) a’r newidiadau sydd ar y gweill yn y ddwy ddeddfwrfa o 2026 ymlaen, yn ogystal â’r cysylltiadau helaeth rhwng Cymru a Baden-Württemberg. Hefyd, gwnaeth Niklas Nüssle MdL, yr arweinydd ar gyfer y ddirprwyaeth, (mae ei etholaeth, Waldshut, yn cynnwys Rheinfelden, sydd wedi gefeillio â Bro Morgannwg) ddefnyddio Cymraeg yn ei air o groeso! Ymwelodd yr Aelodau hefyd â'r siambr, lle gwnaethant drafod gweithrediad y Cyfarfod Llawn a chynrychiolaeth yn y Landtag presennol. Yn ogystal, fe esboniodd swyddogion y newidiadau helaeth sy’n digwydd i'r siambr ar ôl pob etholiad i’w haddasu ar gyfer grwpiau ac aelodau newydd.





Chwith: Aelodau gyda "Paraphrases on the National Colors" gan yr artist o Stuttgart Otto Herbert Hajek. Mae'r triptych ar fenthyg parhaol i'r Landtag gan Lywodraeth Ffederal yr Almaen. Dde: Aelodau yn ffatri Mercedes-Benz yn Boblingen.

Dros ginio swyddogol, manteisiodd y Dirprwy Lywydd ar y cyfle i estyn gwahoddiad cilyddol i'r Senedd fel rhan o uchelgais i feithrin perthynas â Landtag Baden-Württemburg.

Yn ystod eu hamser yn Stuttgart, cyfarfu'r ddirprwyaeth hefyd â chynrychiolwyr o EnBW, un o gwmnïau ynni mwyaf yr Almaen y mae ei brosiectau presennol yn cynnwys fferm wynt alltraeth arfaethedig wedi'i lleoli oddi ar arfordir gogledd Cymru. Clywodd yr Aelodau am Brosiect Mona,  uchelgais EnBW i raddol ddileu glo a sicrhau niwtraliaeth hinsawdd, ac am ei waith ym meysydd ynni a pherchnogaeth gymunedol, a oedd o ddiddordeb arbennig.







Dirprwyaeth y Senedd gyda swyddogion o EnBW a Chanolfan Gyfrifiadura Perfformiad Uchel Prifysgol Stuttgart.

Aeth yr Aelodau hefyd ar deithiau o amgylch y Staatsgalerie ac o amgylch ffatri Mercedes-Benz, lle gwelsant y cynnydd tuag at awtomeiddio yn y neuaddau cynhyrchu. Yn ddiweddarach, cafodd yr Aelodau eu tywys o amgylch adran cyfrifiadura perfformiad uchel Prifysgol Stuttgart, a'r labordy efelychu Deallusrwydd Artiffisial (AI): dangosodd staff yno'r amcanestyniad o ddinas Stuttgart sy'n cael ei ddefnyddio i roi prawf ar nodweddion hygyrchedd mewn lleoliadau go iawn, sef un o'r ffyrdd niferus a ddefnyddir gan yr adran AI a chyfrifiadura perfformiad uchel yn eu prosiectau.

Roedd yr ymweliad â Stuttgart a Landtag Baden-Württemberg yn rhan o Fframwaith Rhyngwladol y Senedd, sy'n rhoi Busnes y Senedd wrth wraidd gweithgarwch rhyngwladol, gyda'r uchelgais i feithrin a dwysáu cysylltiadau ar lefel seneddau taleithiau yn yr Almaen yn ystod y Chweched Senedd hwn a thu hwnt i Seneddau'r dyfodol.



Aelodau yng nghyfleuster Ogof HLRS - canolfan Efelychu AI.